*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1489

## Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

**Trefniadau dros dro ar gyfer darparu bod PPE Covid ar gael**

**2.**—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys ond i PPE Covid yn unig.

(2) Er gwaethaf gofynion Erthyglau 8(2), 10(2) ac 11(2) o'r Rheoliad PPE, pan fo'r amodau a nodir ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, caniateir i weithredwr economaidd perthnasol ddarparu bod PPE Covid ar gael ar y farchnad—

(a) cyn bod y weithdrefn asesu cydymffurfiaeth berthnasol wedi ei chyflawni; a

(b) cyn bod nod y DU wedi ei osod arno.

(3) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), cyn bod gweithredwr economaidd yn darparu bod y PPE Covid ar gael, yw—

(a) bod y PPE Covid wedi ei gyflwyno i gorff cymeradwy ar gyfer asesu cydymffurfiaeth; a

(b) ar ôl i'r PPE Covid gael ei gyflwyno i gorff cymeradwy, bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch—

(i) wedi asesu bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH sy'n berthnasol i'r broses asesu; a

(ii) wedi hysbysu gweithredwr economaidd ar unrhyw adeg cyn 1 Ebrill 2021 am yr asesiad bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH y'u haseswyd yn eu herbyn.

(4) Pan fo gweithredwr economaidd yn dibynnu ar reoliad 2A o Reoliadau 2018 ac yn cyflwyno PPE Covid i gorff a hysbyswyd, mae cyfeiriad yn y rheoliad hwn at—

(a) nod y DU i'w ddarllen fel cyfeiriad at nod CE;

(b) corff cymeradwy i'w ddarllen fel cyfeiriad at gorff a hysbyswyd.